# Gweithgaredd 6: Cyfeiriannu Rhigolau

KS5

**Cysylltiadau cwricwlwm Cymru:**
- Y Dyniaethau
- Iechyd a Lles
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Cysylltiadau cwricwlwm Lloegr:**
Tirwedd Rewlifol; ffurfiant tir a phrosesau; sgiliau ymarferol; dehongli'r gorffennol.

**Amser:** 2-4 awr

**Adnoddau i'w lawrlwytho:**
Taflen dull cyfeiriannu rhigolau

**Adnoddau eraill sydd eu hangen:**
cwmpawd, papur, pensil, generadur rhifau ar hap (dewisol)

**Maint y grŵp:** 1-4 dysgwr i bob grŵp

## Cynllun y gweithgaredd:

- Yn gyntaf, ewch a'ch grŵp o fyfyrwyr i'r safle rhigolau i'r gorllewin o Lyn Idwal (cyfesurynnau GPS 53.116176,-4.027165. Cyfeirnod Grid SH 64435 59586)
- Mae hwn yn ardal o greigwely dinoeth, gyda disgynfa serth i ddŵr dwfn. Dylid cymryd gofal wrth ddefnyddio'r safle hwn.
- Rhannwch y daflen dull a'r cwmpawd; dylai'r dysgwyr allu cwblhau'r dasg yn eithaf annibynnol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr greu taflen cofnodi eu hunain.
- Os gwasgarwch y dysgwyr allan dros yr ardal creigwely, dylech gael sampl gynrychioladol i ddangos cyfeiriad llif y rhew yn y cwm.
- Byddwch yn ofalus o'r craciau yn y graig a fydd yn cael eu camgymryd am rigol...!
- Byddwch yn ofalus rhag difrodi'r lleoliad sensitif yma; os ydych yn ansicr gwiriwch gyda'r swyddog partneriaeth yn y ganolfan ymwelwyr.

### Syniadau gweithgareddau dosbarth y gallwch eu gwneud cyn neu ar ôl eich ymweliad:


- Dysgu am gyfeirnodau grid, lledred a hydred. Ceisiwch ymarfer cymryd cyfeiriant ar gwmpawd o amgylch tir yr ysgol.
- Defnyddio'r ap i-geology BGS
- Lleoli eich data gan ddefnyddio latlong.net
- Creu cyfrif esri i'r ysgol i ddefnyddio eich data ar fap
- Gweithgaredd cyfeiriannu cwm ar fap OS

AROLWG ORDNANS MAP ZONE

# Taflen waith gweithgaredd 6: Cyfeiriannu rhigolau

## Dull:

- Dewiswch strategaeth samplo addas (ar hap, systematig neu haenedig) i leoli eich rhigol.
- Wrth geisio cadw eich cwmpawd mor wastad â phosib, aliniwch ymyl y cwmpawd gyda'r rhigol.
- Trowch y wefl fel bod y marc i'r Gogledd (N) yn alinio gyda'r saeth i'r gogledd (fel arfer yn goch) fel y dangosir isod.
- Eich darlleniad yw'r rhif ar dop y cwmpawd sydd wedi ei alinio â'r saeth ar ei fyny (fel arfer yn ddu)




- Ail adrodd gyda mwy o rigolau ac yna cyfrif cyfeiriadedd cyfartalog.

## Cwestiynau:

- Sut allwn ni ddefnyddio'r data yma i ymchwilio rhewlif yn yr ardal yma?
- Beth allwn ni gasglu am gyfeiriad llif y rhew?
- Beth ydi'r cyfyngiadau i'r set o ddata?